Cynhaliwyd Mabolgamapau'r ysgol ar 29 Mehefin. Stewi gipiodd darian y Gymdeithas Rieni Athrawon o dan gapteniaeth Sioned Thomas ac Adrian Paddock. Roedd Seilo yn dynn ar ei sodlau, diolch i ymdrechion y ddau gapten Melanie Evans ac Alun Price. Lisa Humphreys enillodd D1ws Cyril Evans a'i Fab am ei chyfraniad i chwaraeon yn ystod y f1wyddyn. Aeth Tarian Dylan a Hywel Griffiths am y nifer uchaf o bwyntiau yn y mabolgampau i Jason Davies,

Aeth 11ond bws o blant i fabolgampau'r cylch ym M1aendolau ddechrau Gorffennaf gan wneud gwaith canmoladwy iawn. Yna cynhaliwyd Gala nofio'r ysgol ar y prynhawn Mawrth.

7 Gorffennaf oedd diwrnod ein gwibdaith eleni. Aeth dosbarth 1 a 2 i Dywyn ac oddi yno ar drên bach Talyllyn i Ddolgoch, Abergynolwyn a Nant Gwernoil cyn troi am adre drwy Dalyllyn a Chorris. Mwynhaodd pawb eu hunain er gwaethaf anwadalrwydd y tywydd. Bu'r plant hynaf yn sgio yn Nhrawsfynydd cyn mynd ymlaen i Geudyllau Llechwedd, Blaenau Ffestiniog. Cawsant ddiwrnod pleserus tu hwnt.